

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Newyddlen Tenantiaid

Cydweithio i wella eich cartrefi...

IONAWR
2011



Diweddariad ar y gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Yn y newyddlen ddiwethaf fe gawsoch y newyddion diweddaraf am y rhaglen fuddsoddi a ble rydym wedi ei gyrraedd gyda phenodi contractwyr a chychwyn ar y gwaith gwella i'ch cartrefi.

Bydd llawer ohonoch yn ymwybodol bod y gwaith o osod drysau a ffenestri yn ogystal â systemau gwresogi newydd wedi cychwyn yn barod. Mae Nationwide Windows (UK) wedi eu penodi i osod drysau allanol a ffenestri, gyda Eaga a Bramalls wedi cael y gwaith o osod gwres canolog yn y cartrefi. Y gobaith yw y bydd llawer o'r gwaith cychwynol yma wedi ei gwblhau erbyn diwedd Ebrill eleni.

Byddwch wedi sylwi hefyd ein bod wedi cynnwys taflen wybodaeth gyda'r newyddlen y tro hwn. Mae'r daflen yn amlinellu pryd a ble fydd y gwaith gwella yn cael ei wneud dros y bum mlynedd nesaf. Gall rhai o'r manylion newid ond bydd y daflen yn rhoi syniad i chi o pryd allwch ddisgwyl i waith ddechrau ar eich cartref chi.

Os ydych am wybod mwy neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â ni ar **0300 123 8084** a gofynnwch am gael gair gydag un o'r swyddogion cyswllt SATC, gallwch hefyd ein ebostio ar **gwella@ccgwynedd.org.uk**.

Unrhyw straeon?

Rydym am wybod beth hoffech chi weld yn ymddangos yn y newyddlen yn y dyfodol. Cysylltwch â ni gyda'ch syniadau neu'ch straeon.

Ffoniwch ni ar:
0300 123 8084
neu e-bostiwch:
cyfathrebu@ccgwynedd.org.uk

Gallwch ysgrifennu atom hefyd:

Newyddlen Tenantiaid
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Uned 6 a 7 Llys Castan
Parc Menai
Gwynedd
LL57 4FD



0300 123 8084

www.ccgwynedd.org

Cwrdd â'r tîm - Elin Morris

Hoffwn gyflwyno fy hun i chi yn rhinwedd fy swydd newydd fel Swyddog Cyswllt Cymunedol Cefnogol gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Fel rhan o fy swydd rwy'n gyfrifol am drefnu, gweithredu a chefnogi holl ddigwyddiadau cyswllt cymunedol, tenantiaid a phreswylwyr a gwneud yn siŵr eich bod chi'n ganolog i holl wasanaethau Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Yn ogystal â gweithio oddi fewn i'r Fframwaith newydd, byddaf yn ystod y misoedd nesaf yn trefnu cyfarfodydd stadau ac ymweliadau o ddrws i ddrws er mwyn rhoi'r cyfle i chi drafod eich syniadau a rhannu eich barn am ein gwasanaethau.

Byddaf hefyd yn ymweld â phob Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Lleol yn eu tro er mwyn gweld y gwaith arbennig maent yn ei wneud yn eu cymunedau lleol. Rwy'n siŵr y bydd modd i ni weithio gyda chi fel tenantiaid a phreswylwyr i sefydlu a chefnogi mwy o gymdeithasau o'r fath ar hyd a lled y sir.

Rwy'n edrych ymlaen at gael cydweithio â chi yn y cyfnod cyffrous hwn.



Elin Morris

Am fwy o wybodaeth neu sgwrs bellach, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy ffonio **0300 123 8084** neu ar e-bost ymholiadau@ccgwynedd.org.uk.

Cyfrannu at ddyfodol CCG

Mae gan CCG Fframwaith newydd sbon er mwyn sicrhau eich bod chi'n cael y cyfle i leisio barn am yr hyn sy'n bwysig i chi a'ch cymuned. Os hoffech chi fod yn rhan o'r Fframwaith newydd hon, mae sawl ffordd y gallwch gyfrannu. Gall hyn gynnwys bod yn aelod o **Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr** - (Ffederasiwn Tenantiaid Gwynedd gynt). Dyma brif gorff y tenantiaid fydd yn cydweithio gyda CCG ar bob mater yn ymwneud â thenantiaid a phreswylwyr.

Neu un o'r Fforymau staff, tenantiaid a phreswylwyr:

- **Fforwm Cyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru** - Mae'r fforwm hwn yn cydweithio â CCG ar bob agwedd o'r gwaith sy'n ymwneud â'r rhaglen fuddsoddi.
- **Fforwm Gwasanaethau Cwsmer o Safon** - Mae'r fforwm hwn yn edrych ar bob gwasanaeth yn ei dro er mwyn sicrhau fod gwasanaeth CCG yn seiliedig ar ofal ac anghenion y cwsmer.
- **Fforwm Lles Cymunedol** - Mae CCG wedi ymrwymo i wella cymunedau. Pwrpas y fforwm hwn yw sicrhau bod gweithgareddau CCG yn anelu at y nod yma.
- **Fforwm Cyfathrebu** - Mae'r fforwm hwn yn edrych ar y gohebiaeth sy'n cael ei anfon atoch gan gynnwys y newyddlen, llythyrau, cynnwys y wefan a thafenni gwybodaeth.
- **Fforwm Cynnal a Chadw** - Gwaith y fforwm hwn yw edrych ar y gwasanaeth cynnal a chadw.



Hyd yn oed os nad oes gennych chi ddiddordeb mewn bod ar un o'r fforymau yma, rydym eisieu clywed eich barn. Beth am wneud cais am fod yn gyfranddaliwr o gwmni CCG? Sefydlu grŵp cymunedol? Cydweithio gyda ni ar brosiect neu ddigwyddiad cymunedol? Mae croeso i chi gysylltu â ni i roi eich barn am ein gwasanaethau?

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno ag unrhyw un o'r fforymau uchod, neu os yr hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu ag **Elin Morris** ar **0300 123 8084**.

Atal ysbwriel anghyfreithlon

Mae rhai o swyddogion CCG wedi bod yn brysur yn ystod y misoedd diwethaf mewn sawl lleoliad yn clirio ac yn ceisio datrys y broblem o daflu sbwriel yn anghyfreithlon.

Yn dilyn problemau ym Mro Cynan, Pwllheli mae cyfleusterau ailgylchu wedi eu gosod yno ac mae pawb wedi cael bin gwyrd. Yn Yr Eifl a'r Ddôl ym Mhwlheli mae sbwriel a gwastraff wedi bod yn denu achosion o losgi bwriadol a biniau'n cael eu rhoi ar dân. Er mwyn datrys y broblem hon, trefnwyd diwrnod ail-gylchu ar y cyd â Chymunedau'n Gyntaf a chynllun Trefi Taclus. Roedd tenantiaid yn cael eu hannog i glirio eu siediau ac yn cael cyngor ar sut i reoli eu gwastraff yn well. Cafodd pob sied glo ac fe symudwyd y biniau ailgylchu i fan mwy diogel ac amlwg.

Yn dilyn cwynion gan breswylwyr yn Stryd Dublin, Tremadog ynglŷn â sbwriel anghyfreithiol oedd yn rhwystro plant rhag chwarae yn eu gerddi, mae gwaith sylweddol wedi digwydd er mwyn ceisio datrys y broblem a'i hatal yn y dyfodol.

Meddai Haydn Maxwell, Cydlynnydd Gwasanaeth Bro Cartrefi Cymunedol Gwynedd sy'n gyfrifol am drefnu'r gwaith yn Nhremadog: "Wedi cwynion gan breswylwyr am gyflwr eu gerddi yn sgil pobl yn taflu sbwriel yng nghefn eu tir, penderfynwyd mynd ati i geisio atal y broblem. Yn y gorffennol roedd y preswylwyr yn gallu clywed pobl yn taflu eu gwastraff ond yn methu a'u gweld gan fod y llwyni wedi gordyfu. Drwy gyd-weithio â pherchennog y tir sy'n amgylchynu cefn y tai, cliriwyd y llwyni er mwyn sicrhau fod ffiniau'r eiddo'n glir. Ein gobaith rwan yw na fydd pobl yn mynd ati i daflu eu gwastraff yng nghefn Dublin Street."

Ffeithiau am daflu ysbwriel anghyfreithlon:

- Mae taflu gwastraff yn anghyfreithlon yn drosedd difrifol a all olygu dirwy o hyd at £20,000 neu hyd yn oed cyfnod o bum mlynedd yn y carchar
- Mae hefyd yn drosedd i ganiatáu tipio gwastraff yn anghyfreithlon ar eich tir
- Gall perchnogion cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio i dipio gwastraff hefyd gael eu herlyn



Yswiriant Cynnwys y Cartref

Ydych chi wedi sicrhau fod gennych chi'r yswiriant cywir ar gyfer eich cartref?

Mae llawer o denantiaid dan y camargraff fod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn yswirio cynnwys eu cartrefi drostynt - 'dyw hyn ddim yn wir. Eich cyfrifoldeb chi yw yswirio cynnwys eich cartref. Gallwch naill ai wneud eich trefniadau eich hun, neu gymryd yswiriant dan gynllun arbennig CCG gyda Aviva.

Bydd yr yswiriant hwn yn sicrhau fod rhan fwyaf o nwyddau eich cartref wedi eu hyswirio ac wedi eu cynnwys dan bolisi ar sail 'newydd am hen'.

Er mwyn cael yswiriant bydd gofyn i chi lenwi ffurflen gais sydd ar gael o'ch swyddfa ardal leol neu drwy gysylltu â'r Rheolwr Rhent ac Incwm, Dylan Morgan ar rhent@ccgwynedd.org.uk neu **0300 123 8084**.



Ffatri newydd yn creu swyddi yng Ngwynedd

Mae rhaglen fuddsoddi CCG eisoes wedi rhoi hwb i'r economi leol wrth i'r bartneriaeth gyda Nationwide Windows (UK) Ltd greu hyd at 35 swydd mewn ffatri newydd ym Mangor.

Mae disgwyl i'r ffatri ar Stad Ddiwydiannol Llandygai agor ym mis Chwefror.

Mae gosod drysau a ffenestri newydd mewn cartrefi dros 4,000 o denantiaid ar draws Gwynedd yn nodi cychwyn y gwaith buddsoddi SATC. Mae Nationwide Windows (UK) Ltd wedi ei benodi yn gontractwr i wneud y gwaith cychwynnol yma, ac fel rhan o'u cytundeb maen nhw yn ymrwymo i ddarparu swyddi lleol a defnyddio darparwyr lleol.

Dywedodd Ffrancon Williams, Prif Weithredwr CCG: "Mae hyn yn newyddion gwych ac rwy'n falch bod yr economi leol yn gallu elwa fel hyn o'r rhaglen fuddsoddi. Roedd datblygu cymunedau a chefnogi'r economi yn lleol ymysg ein haddewidion cyn i'r cartrefi drosglwyddo i ni. Gydag agor y ffatri newydd yn Llandygai, rwy'n credu ein bod ni yn gwneud yn union hynny."

"Dim ond cychwyn y buddsoddiad yw hyn, ac fel y mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd am swyddi yn lleol yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant."

Ychwanegodd Adrian Pavey, Cyfarwyddwr Masnachol Nationwide: "Mae chwarae rhan yn y gymuned yn bwysig i ni ac rydym yn falch o allu gwneud y cyhoeddiad hwn. Gyda swyddi newydd yn brin mae hyn yn amseru da. Wrth i ni wneud y gwaith gwella ar gartrefi tenantiaid byddwn yn gweithio'n glos gyda CCG i ddatblygu ein gweithlu lleol ac i sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn elwa o'r buddsoddiad sylweddol yma."

Yn ogystal â gosod ffenestri a drysau newydd bydd tenantiaid hefyd yn cael systemau gwres canolog fel rhan o'r cyfnod cyntaf yma o'r gwaith. Mae cwmnïau Eaga a Bramalls wedi eu penodi er mwyn cwblhau'r gwaith hwn ac maent eisoes wedi cysylltu â nifer o denantiaid ynglŷn â'r gwaith.



Safonau Gwasanaeth Uned Rhenti

Mae Uned Rhenti Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau fod pawb yn talu eu rhent yn gyson ac yn brydlon. Maent hefyd ar gael i roi cyngor a chymorth i bobl sy'n cael trafferth i dalu eu rhent. Gan fod staff yr Uned Rhenti yn cysylltu yn gyson gyda thenantiaid rydym wedi penderfynu creu Safonau Gwasanaeth er mwyn sicrhau fod tenantiaid yn gwybod beth yw'r drefn pan fyddent yn cysylltu gyda'r Uned Rhenti.

Mae'r Safonau hyn yn egluro sut y bydd yr Uned Rhenti yn ymateb i'ch ymholiad, sut y gallwch chi dalu eich rhent, sut y byddwn yn delio yn deg ond yn gadarn gydag achosion ôl-ddyled rhent, ac yn anelu i ymateb yn gywir a sut y byddwn yn adfer camgymeriadau.

Mae'r safonau hyn wedi eu datblygu ar y cyd â thenantiaid a chwsmeriaid Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Mae'r Safonau Gwasanaeth newydd ar gael ar wefan Cartrefi Cymunedol Gwynedd, sef www.ccgwynedd.org neu drwy ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Dylan Morgan, Rheolwr Rhent ac Incwm ar **0300 123 8084**.



Dyfodol casglu rhent o ddrws i ddrws

Mae yna sawl ffordd y gallwch chi dalu eich rhent i Gartrefi Cymunedol Gwynedd. Mae rhai yn dewis talu drwy ddefnyddio ein gwasanaeth casglu o ddrws i ddrws. Er bod y gwasanaeth hwn wedi bod yn boblogaidd yn y gorffennol, mae nifer o denantiaid bellach yn defnyddio dulliau eraill o dalu gan gynnwys debyd uniongyrchol, cardiau Allpay, talu dros y we, neges testun neu dros y ffôn.

Gan fod y nifer o denantiaid sy'n defnyddio ein gwasanaeth casglu rhent o ddrws i ddrws wedi gostwng, mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi penderfynu cynnal adolygiad o'r dull hwn. Rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn chi ynglŷn â'r gwasanaeth. Bydd llythyr yn cael ei anfon i'r holl denantiaid sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r gwasanaeth drws i ddrws, ond rydym hefyd yn awyddus iawn i glywed barn tenantiaid eraill. Mae croeso i chi gysylltu â ni er mwyn lleisio eich barn drwy anfon llythyr at Gareth Parri, Rheolwr Rheolaeth Tai, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Siambr Buddug, Stryd y Goron, Caernarfon, LL55 1SY neu e-bostio rhent@ccgwynedd.org.uk neu ffonio **0300 123 8084**.

Eisiau cymryd rôl weithredol yn CCG? Mae cyfle i chi fod yn aelod o'r Bwrdd

Oes gennych chi ddiddordeb mewn chwarae rôl allweddol i'n cynorthwyo i lywio dyfodol CCG?

Ydych chi'n teimlo y gallwch gynorthwyo CCG i ddatblygu a chyflawni ei addewidion?

Ydych chi eisiau bod yn rhan o benderfyniadau allweddol CCG? Os ydych chi, yna darllenwch ymlaen.

Rydym ar hyn o bryd yn chwilio am ddau denant i fod yn aelodau o'r Bwrdd.

Credwn fod rhoi llais cryf i denantiaid am y ffordd mae CCG yn cael ei redeg yn bwysig. Gwnaed addewid yn y Ddogfen Gynnig fod pedwar o'r deuddeg sedd ar y Bwrdd Rheoli ar gael



Rhai o aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr CCG yn ymweld â gwaith ym Mhenrhyndeudraeth yn ddiweddar

i denantiaid. Rydym am i denantiaid fod yn rhan o ddatblygiad CCG a'r gwaith i wella safonau ein gwasanaeth i chi a'ch cydentantiaid.

Diddordeb? Beth nesaf?

Rydym nawr yn chwilio am enwebiadau gan denantiaid sydd â diddordeb. Yn dilyn hyfforddiant i'r ymgeiswyr, cynhelir etholiad ble bydd gan yr holl denantiaid yr hawl i bleidleisio.

Am gael gwybod mwy?

Cysylltwch â'r Tim Trefn Llywodraethol ar **0300 123 8084** neu e-bostio Bwrdd@ccgwynedd.org.uk

Dewch draw...

Ydych chi eisiau lleisio eich barn ar yr hyn sydd yn digwydd yn eich ardal chi? Ydych chi am rannu eich pryderon am eich eiddo?

Ydych chi am weld mwy o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn eich ardal?

Mae trigolion Ward Peblig yn cael y cyfle i rannu eu gofidion gyda swyddogion CCG ar nos lau cyntaf pob mis rhwng 5 a 9pm yn Nhŷ Peblig mewn syrjeri arbennig.

A hoffech chi gael y cyfle i wneud yr un fath yn eich ardal chi?

Mae CCG yn awyddus i sefydlu rhwydwaith o syrjeris ar hyd a lled Gwynedd er mwyn rhoi'r cyfle i denantiaid a phreswylwyr i leisio eu barn, rhannu eu gofidion, derbyn gwybodaeth a darganfod mwy am yr hyn sydd yn mynd ymlaen yn eu hardal nhw.

Os yr hoffech chi gael Syrjeri yn eich ardal chi, cysylltwch â Geraint Jones, Rheolwr Gwasanaethau Bro ar **0300 123 8084** neu e-bostio ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

Gerddi plwyf Llanllyfni'n blodeuo

Roedd Carys Mosely a'i theulu o Trem y Wyddfa, Penygroes yn dathlu yn ddiweddar ar ôl ennill gwobr Plwyf Llanllyfni am yr ardd orau.

Mewn cystadleuaeth flynyddol sy'n cael ei threfnu gan CCG a'r Cyngor Plwyf daeth Carys i'r brig a derbyniodd darian gan y Cyngorydd Plwyf Alwyn Jones Griffiths. Dywedodd Carys: "Rwy'n treulio llawer o amser yn yr ardd, ac felly roeddwn yn falch iawn o ennill y wobwr yma. Rwy'n cystadlu pob blwyddyn ac yn meddwl bod hyn yn ffordd wych o annog pobl yr ardal i gymryd balchder yn eu gerddi."

Cynhaliwyd noson wobrwyo arbennig yn Neuadd Goffa Penygroes. Roedd y cyntaf, ail a trydydd yn derbyn gwobr gyda'r holl erddi gymrodd rhan yn derbyn tystysgrif.



Yr enillydd Carys Mosley (canol) gyda Brenda Thompson (chwith) a Beti Williams (Dde) a ddaeth yn gydradd ail.